



THE INSTITUTE OF THE MOTOR INDUSTRY
SEFYDLIAD Y DIWYDIANT MODURON

Sefydliad y Diwydiant Moduron (IMI)
Cynllun Iaith
Gymraeg

Paratowyd yn unol â
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cynnwys

Adran	Tudalen
1. Datganiad Agoriadol	2
2. Cyflwyniad i IMI	2
2.2 Strategaeth Weithredol yng Nghymru	4
3. Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth	5
4. Darpariaethau	6
5. Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg	9
6. Wyneb Cyhoeddus y Sefydliad	12
7. Gweithredu ac Arolygu'r Cynllun	16
8. Trefniadau Gweinyddol	19
9. Gwasanaethau ar ran IMI gan Bartïon Eraill	19
10. Partneriaethau	20
11. Monitro Gweithrediad y Cynllun	20
12. Cyhoeddi Gwybodaeth	21
13. Cyhoeddusrwydd	21
14. Cwynion/Awgrymiadau a Manylion Cyswllt	22
15. Targedau	22
16. Amserlen	22

1. Datganiad Agoriadol

Mae'r Cynllun wedi derbyn sêl bendith Bwrdd yr Iaith o dan Adran 14 (1) o'r Ddeddf ar [dyddiad y gymeradwyaeth].

Mae IMI wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd IMI yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae IMI yn cydnabod y gall unigolion fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith ac mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd IMI yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin ag ef ac yn cymhwyso'r egwyddor hon i ddisgwyliadau ar y cyrff y mae'n delio â nhw.

2. Cyflwyniad i IMI

2.1 Cyd-destun Prydeinig

Mae'r Cynghorau Sgiliau Sector (CSS) yn gyrrff annibynnol sydd i'w canfod ar draws Prydain; maent wedi eu datblygu gan grwpiau dylanwadol o gyflogwyr mewn sectorau busnes neu ddiwydiant sydd o bwys strategol ac economaidd. Wedi'u harwain gan gyflogwyr, mae'r CSS yn cydweithio gydag undebau llafur, cyrff proffesiynol a budd-ddeiliaid eraill o fewn y sector. Caiff y CSS eu trwyddedu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Hyfforddiant, mewn ymgynghoriad â Gweinidogion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, er mwyn diwallu anghenion sgiliau a chynhyrchiant eu sectorau ar draws y DU.

Rhydd y CSS gyfrifoldeb i gyflogwyr i gynnig arweiniad strategol er mwyn diwallu anghenion sgiliau a busnes yn eu sector. Yn gyfnewid, maent yn derbyn cryn fuddsoddiad cyhoeddus a mwy o ddeialog gydag adrannau'r llywodraeth ar draws y DU. Mi fydd hyn yn galluogi cyflogwyr sector i ddylanwadu'n fwy ar bolisiau sydd yn effeithio ar sgiliau a chynhyrchiant a chynyddu dylanwad gyda phartneriaid addysg a hyfforddiant.

Bydd pob CSS yn cytuno ar flaenoriaethau a thargedau sector gyda'u cyflogwyr a phartneriaid wrth geisio gwireddu'r amcanion isod:

- Lleihau gagendor sgiliau a phrinderau
- Gwella cynhyrchiant, busnes a pherfformiad gwasanaeth cyhoeddus
- Cynyddu cyfleoedd i hybu sgiliau a chynhyrchiant pawb o fewn gweithlu'r sector gan gynnwys cynllun ar gyfleoedd cyfartal
- Gwella'r ddarpariaeth addysg, gan gynnwys prentisiaethau, safonau galwedigaethol cenedlaethol ac addysg uwch

2.2 Cyd-destun Cymreig

Cefndir

Rhodddwyd trwydded 18 mis i IMI i weithredu fel Cyngor Sgiliau Sector i'r diwydiant adwerthu moduron ym mis Medi 2007. Mae'r sector adwerthu moduron yn cynnwys pob agwedd o'r sector modurol wedi i'r cerbyd adael y ffatri – y gwerthu, trwsio, rhentu a llogi, ac achub ac adfer, a hynny gyda'r ystod gyfan o gerbydau modur gan gynnwys ceir, beiciau modur, cerbydau masnachol a cherbydau arbenigol megis rhai milwrol ac amaethyddol. Mae'r amrediad o sgiliau sydd eu hangen ymhob un o'r diwydiannau hyn yn eang a chafwyd newidiadau technolegol sylweddol yn y sector dros yr ugain mlynedd diwethaf, ac mae'n parhau i newid.

Mae gan IMI Reolwr Cenedlaethol llawn amser, wedi'i seilio yng Nghymru, sy'n rhan o dîm o 27 o aelodau staff llawn amser ymhob un o swyddogaethau'r Cyrff Proffesiynol a'r Cyngor Sgiliau Sector. Mae'r rheolwr cenedlaethol cyfredol yn byw yng Ngogledd Cymru, yn siarad Cymraeg, ac yn gweithio o adref. Mae'r Rheolwr Cenedlaethol dros Gymru'n adrodd i'r Pennaeth Datblygiad Proffesiynol, sy'n aelod o'r Uwch Dîm Rheoli.

Amcanion Strategol

Mae gan IMI chwe Nod Strategol sy'n tanategu ein Cynllun Busnes ac sydd, gyda'i gilydd, yn cyfeirio ein gwaith tuag at gyflawni amcanion y sefydliad. Dyma'r nodau hynny:

- 1 Parhau i ddylanwadu a chreu cynghreiriau strategol
- 2 Cynnal yr hyfywedd ariannol drwy gynhyrchu ffrydiau incwm newydd a chadw rhai cyfredol
- 3 Cynyddu'r ymgysylltiad gyda chyflogwyr, yn arbennig busnesau bach a chanolig
- 4 Cynyddu gwerth a chyfranogaeth yr aelodaeth drwy gofrestrriad proffesiynol
- 5 Ehangu a gwella Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, Cymwysterau a darpariaeth hyfforddiant i ateb y galw gan gyflogwyr ac unigolion
- 6 Creu mwy o alw am ddatblygiad proffesiynol a sgiliau

Mae IMI yn rhan o Gynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector ac mae'n gweithio'n agos gyda GoSkills, SEMTA a SkillSmart Retail yn bennaf. Mae IMI hefyd yn gweithio'n agos â fforymau eraill yn y sector modurol, megis Fforwm Modurol Cymru a'r Consortiwm Hyfforddiant Peirianeg Perfformiad.

Datblygiadau yn y Dyfodol

Mae nodau strategol IMI yn berthnasol i Brydain gyfan, ac mae'r cynllun busnes yn weithredol ymhob gwlad yn y DU er ei fod hefyd yn mynd i'r afael â materion o fewn gwledydd a/neu ranbarthau unigol. Mae datblygiadau pellach yng Nghymru ar gyfer y dyfodol wedi'u nodi yn y Cytundeb Sgiliau Sector ac yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaethau Cymwysterau Sector i Gymru a gymeradwywyd yn ddiweddar ac y cytunwyd arnynt gyda Budd-ddeiliaid a Chyflogwyr yng Nghymru. Mae'r cynlluniau

gweithredu hyn yn canolbwyntio ar y pedwar maes lle mae angen sgiliau a hefyd ar lwybrau mynediad/datblygu:

- Sgiliau arwain a rheoli
- Sgiliau generig (gwasanaeth y cwsmer, gweithio mewn tîm, cyfathrebu, datrys problemau, ac ati)
- Sgiliau sylfaenol (llythrennedd, rhifedd, TG sylfaenol, ac ati)
- Sgiliau technegol (craidd, arbenigol, technoleg newydd, ac ati)
- Denu gweithwyr newydd sydd â'r sgiliau priodol i mewn i'r sector, yn arbennig yn y grŵp oedran 14 - 19
- Gyrfaoedd

Mewn perthynas â Chynllun Iaith Gymraeg IMI, bydd y Rheolwr Cenedlaethol sydd wedi'i seilio yng Nghymru, mewn cydweithrediad â'r Uwch Dîm Rheoli, yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg ac am sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'r Cynllun ac o'u cyfrifoldeb am roi'r cynllun ar waith. Bydd IMI yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Strategaeth Weithredol yng Nghymru

- Bydd IMI yn sicrhau yr un amcanion a safonau wrth ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yn y Gymraeg ac yn y Saesneg
- Hyrwyddo hunaniaeth gorfforaethol a delwedd ddwyieithog IMI
- Creu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cynllun ymysg holl staff IMI a'i bartneriaid busnes a'i ddarparwyr cysylltiedig.
- Cytuno i beidio newid y Cynllun Iaith Gymraeg heb ganiatâd ac ymgynghoriad o flaen llaw gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

3. Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaeth

3.1 Polisiâu a Mentrau Newydd

3.1.1. Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd, bydd IMI yn:

- asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisiâu a mentrau newydd a sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith
- sicrhau y bydd mesurau'r Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiâu a mentrau newydd ar waith
- gwarantu nad yw polisiâu neu fentrau newydd yn tanseilio Cynllun Iaith IMI neu Gynllun Iaith cyflenwyr eraill
- hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosib ac yn symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn
- ymgynghori â'r Bwrdd ymlaen llaw ynglŷn â bwriadau a fydd yn effeithio ar y Cynllun, neu'n effeithio ar Gynlluniau cyrff cyhoeddus eraill. Ni chaiff y Cynllun ei newid heb gytundeb y Bwrdd.

- sicrhau nid yn unig bod staff ac ymgynghorwyr sy'n llunio polisiâu (yng Nghymru a thu hwnt) yn ymwybodol o'r Cynllun iaith ac o gyfrifoldebau IMI o dan Ddeddf Iaith 1993, ond bod holl staff perthnasol ac angenrheidiol IMI hefyd yn ymwybodol o'r Cynllun.
- Gan mai ond un aelod o staff/cynrychiolydd sydd gan IMI yng Nghymru ar hyn o bryd, mi fydd ein cynrychiolydd yn hybu ymwybyddiaeth o'r Cynllun ac o sensitifrwydd iaith drwy:
 - i. Roi adborth rheolaidd (dwywaith y flwyddyn o leiaf) i'r Uwch Dîm Rheoli ynglŷn â'r ffordd y bydd y Cynllun yn effeithio ar eu gwaith.
 - ii. Cyhoeddi i'r holl staff yn y Timau Datblygiad Proffesiynol a Datblygiad Sgiliau (drwy gyfarfodydd misol Cyfathrebu/JTM) fod y Cynllun i'w weithredu a goblygiadau hynny ar eu gwaith.
 - iii. Cynnal arolwg a gwerthusiad blynyddol o'r Cynllun gyda'r Uwch Dîm Rheoli i sicrhau eu bod yn deall yr hyn sy'n ofynnol a monitro a yw'r Cynllun yn cael ei weithredu'n effeithiol.
 - iv. Cynnwys cyflwyniad i'r Cynllun iaith fel rhan o'r hyfforddiant sefydlu ar gyfer pob aelod newydd o staff a benodir i IMI a fydd efallai wedi'i seilio yng Nghymru neu a fydd yn delio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru
 - v. Llunio cylchlythyr copi caled ac electronig o gynnwys talfyredig y Cynllun a'i ddosbarthu i'r holl staff oddi mewn a thu allan i Gymru
 - vi. Cyhoeddi'r Cynllun ar wefan a mewnrwyd IMI

3.2 Safon y gwasanaethau.

- 3.2.1** Bydd gwasanaethau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg lawn cystal eu safon a'u prydlondeb â'i gilydd. Wrth fynd ati i asesu a mesur safonau ac effeithiolrwydd y gwasanaethau Cymraeg, bydd IMI yn defnyddio'r un "dangosyddion perfformiad" ag a ddefnyddir ar gyfer ei wasanaethau Saesneg.
- 3.2.2** Caiff y safonau yma a'u gweithrediad eu monitro fel yr amlinellir yn adran 3.1.1
- 3.2.3** Bydd gweithrediad y Cynllun ac ymrwymiad IMI at gydraddoldeb ieithyddol yn cael ei gyhoeddi yng nghynlluniau busnes blynyddol, deunyddiau marchnata, cylchlythyr a gwefan y sefydliad (www.motor.org.uk)
- 3.2.4** Bydd IMI yn sicrhau cysondeb safon y gwasanaethau yn Gymraeg a ddarperir gan y corff o wahanol leoliadau trwy ddefnyddio cyfieithwyr cymeradwy a thrwy rannu gwasanaethau gyda sefydliadau tebyg.

3.3 Darparu gwasanaethau dwyieithog.

- 3.3.1** Cred IMI mai teg a rhesymol yw i'r cyhoedd ddisgwyl derbyn gwasanaethau ganddo yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl dewis yr unigolyn. Gan fod IMI yn medru cynnig dewis teg a rhesymol i'r cyhoedd ar hyn o bryd, mae'r corff yn ymrwmo i gynnal a gweithredu trefniadau a fydd yn ei alluogi i barhau i ddarparu pob gwasanaeth i'r cyhoedd yr un mor effeithiol, hwylus a chyflawn yn y Gymraeg fel yn Saesneg.

3.3.2 I'r perwyl hwn, bydd IMI yn archwilio trefniadaeth pob un o'i wasanaethau i'r cyhoedd er mwyn penderfynu sut orau y gellir symud ymlaen tuag at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb. Rhydd flaenoriaeth yn y lle cyntaf i'r angen i sicrhau bod y swyddogion hynny sy'n cysylltu fwyaf â'r cyhoedd, boed yn wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, neu drwy ohebiaeth neu gyfryngau eraill, yn medru gwneud hynny yn ddwyieithog.

4. Darpariaethau

4.1 Rôl y CSS

Wrth weithredu'n strategol a thargedol er mwyn diwallu anghenion sgiliau, datblygu gweithlu a busnes y sector, mae rôl y Cynghorau Sgiliau Sector wrth sicrhau cyfleoedd hyfforddi priodol yn anhraethol bwysig. Mae'r rôl hon yn cynnwys cydlynu rhwng cyflogwyr o fewn y sectorau a systemau hyfforddi ac addysg ar draws y DU. Gellir crynhoi rôl y Cynghorau Sgiliau Sector fel a ganlyn:

Ymchwil, Gwybodaeth a Chyfarwyddyd

- adnabod a gwella cyfleoedd addysg a hyfforddiant er mwyn diwallu anghenion pob un sector
- ymgymryd ag ymchwil i mewn i fylchau sgiliau sector gan ledaenu'r canfyddiadau

Datblygiad Sectorol a Phartneriaethau

- darparu cyfleoedd safonol i weithwyr presennol ac unigolion eraill sy'n chwilio am waith o fewn pob un sector
- cytuno ar dargedau ar gyfer cyfraniadau o waith prif ffrwd o du'r asiantaethau cyhoeddus allweddol er mwyn cwrdd â blaenoriaethau'r sector
- dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sgiliau sydd i'w cymryd gan lywodraethau'r DU
- hyrwyddo buddsoddiad o'r fath mewn sgiliau a thalent a fydd yn cynorthwyo i ddiwallu anghenion y sector ac annog cystadleugarwch.

Fframweithiau Hyfforddi

- diffinio a datblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol allweddol, llwybrau dysgu a fframweithiau cymwysterau.
- cwrdd â'r patrymau cyfnewidiol o alw am sgiliau a chynyddu cynhyrchiant
- darparu cyngor a chyfarwyddyd i gyflogwyr a gweithwyr ar sgiliau penodol ac ymarferion hyfforddi
- annog cyfranogiad cydweithredol i wybodaeth farchnad lafur, economaidd a sgiliau ym mhob cenedl a rhanbarth.

4.2 Cyngorau Sgiliau Sector yng Nghymru

Wrth ddatblygu sgiliau, gweithlu ac anghenion busnes y sector yng Nghymru, mae IMI yn ymrwymo i ymchwilio ac ymateb yn frwd i anghenion dwyieithog. Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2001 fod 20% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg. Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli'n bennaf i lwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg. Mae IMI yn cydnabod ei rôl wrth sicrhau fod addysg ddwyieithog a chyfleoedd hyfforddi yn parhau ar gael er budd cyflogwyr ac unigolion sy'n chwilio am waith o fewn y sector adwerthu cerbydau modur.

Mae cynllun gweithredu cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru ddwyieithog, *laith Pawb*, yn datgan ei pholisi o brif-frydio'r iaith Gymraeg i mewn i bob agwedd o Gymru. Pwysleisia *laith Pawb* bwysigrwydd rôl y Cyngorau Sgiliau Sector wrth ddiwallu anghenion sgiliau iaith Gymraeg yn eu sectorau penodol.

Mae canlyniadau ymchwil *Sgiliau Dyfodol Cymru* yn dynodi'n eglur fod sgiliau dwyieithog yn cael eu hystyried gan gyflogwyr yn gaffaeliad gwerthfawr. Dengys canfyddiadau hefyd fod yna ddiffyg sylweddol o bobl a chanddynt sgiliau dwyieithog mewn sectorau penodol.

4.3 Darpariaeth

Bydd IMI yn ymchwilio ac yn ymateb yn frwd i anghenion sgiliau iaith Gymraeg o fewn y Sector Adwerthu Modur.

Bydd IMI yn cynghori ac yn arwain Darparwyr Dysgu i adnabod ac ymchwilio i anghenion hyfforddi Cymru ddwyieithog.

4.4 Ymchwil

MESURAU

- Ymchwilio i argaeledd sgiliau dwyieithog ac anghenion y sector yn y dyfodol
- Ymchwilio i mewn i'r ddarpariaeth bresennol a'r buddsoddiad mewn addysg alwedigaethol/hyfforddiant er mwyn cynllunio ar gyfer darpariaethau'r dyfodol
- Ymchwilio i mewn i anghenion sgiliau arbenigol a phenodol o fewn y sector

GWEITHREDU

- Bydd arolygon dwyieithog yn cael eu cynnal a fydd erbyn 2010 yn cynnwys cwestiynau penodol ar yr angen a'r galw am sgiliau cyfrwng Cymraeg.
- Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu dosbarthu gan amlygu'r sgil-effeithiau ar gyfer addysg ac ymarferion hyfforddi.
- Bydd canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

4.5 Gwybodaeth a Chyfarwyddyd

MESURAU

- Darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd er mwyn cefnogi addysg gydol oes y recriwtiaid a'r gweithwyr.

- Trefnu cyngor ymarferol a chyfarwyddyd ar gyfer cwmnïau unigol ynghylch sgiliau ac ymarferion hyfforddi sydd eu hangen er mwyn ymateb i anghenion cyfnewidiol.
- Sicrhau fod gwybodaeth gywrain ar gael ynghylch hyfforddiant, cyngor a chyfarwyddyd ar faterion sgiliau yn y sector.

GWEITHREDU

- Datblygu gwasanaethau cyngor ar yrfaedd a chyfarwyddyd ar gyfer unigolion proffesiynol sydd yn gweithio oddi mewn i'r diwydiant neu'r sawl sydd am weithio yn y diwydiant. Bydd y gwasanaeth yma ar gael yn y ddwy iaith erbyn 2011/12.
- Bydd gwasanaeth cyngor a chyfarwyddyd ar gyfer cwmnïau unigol yn cael ei ddatblygu. Bydd y gwasanaeth yma ar gael yn y ddwy iaith erbyn 2011/12. Bydd y cyngor yn cynnwys cyfeiriad penodol at bwysigrwydd sgiliau dwyieithog gan ystyried ffactorau megis gofynion Cynlluniau Iaith Gymraeg y sector cyhoeddus a recriwtio.
- Bydd cyfarwyddyd ynghylch argaeledd cyfleoedd hyfforddi Cymraeg/dwyieithog bob amser ar gael i gyflogwyr a gweithwyr erbyn 2011.

4.6 Datblygiad Sectorol a Phartneriaeth

MESURAU

- Cynnig cyfleoedd safonol i weithwyr presennol a'r sawl sydd yn chwilio am waith oddi mewn i'r sector.
- Cytuno ar dargedau ar gyfer cyfraniadau o waith prif ffrwd o du'r asiantaethau cyhoeddus allweddol er mwyn cwrdd â blaenoriaethau'r sector
- Dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sgiliau sydd i'w cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Hyrwyddo buddsoddiad mewn sgiliau a thalent a fydd yn cynorthwyo i ddiwallu anghenion y sector ac yn annog cystadleugarwch.

GWEITHREDU

- Erbyn Ebrill 2011, bydd IMI yn goruchwyllo datblygiad Cynllun Datblygu Gweithlu Sector i Gymru ar sail y Cytundeb Sector Sgiliau a'r Cynllun Gweithredu Sicrhau Ansawdd Blynyddol i Gymru, er mwyn darparu agenda weithredu ar gyfer y diwydiant, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i hasiantaethau cyhoeddus. Bydd Cynllun Datblygu'r Sector Adwerthu Modurol yn asesu anghenion Sgiliau Iaith Gymraeg y Diwydiant Adwerthu Moduron ac yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg. Caiff targedau eu gosod er mwyn datblygu darpariaeth dwyieithog a seilir ar resymeg a chanfyddiadau.
- Bydd IMI yn cydweithio'n agos ag APADGOS wrth gytuno ar flaenoriaethau anghenion sgiliau dwyieithog y sector. Erbyn 2010, caiff y partneriaethau eu ffurfioli drwy gyfrwng cyfarfodydd bob chwe mis.
- Bydd y blaenoriaethau sgiliau dwyieithog yn cael eu rhannu ymhlith cyrff priodol gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- Bydd IMI hefyd yn hyrwyddo datblygiad cyfleoedd hyfforddi dwyieithog tra hefyd yn cydnabod enghreifftiau o ymarfer da.

4.7 Fframweithiau Hyfforddi

MESURAU

- Diffinio a datblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol allweddol a llwybrau dysgu
- Cwrdd â'r patrymau cyfnewidiol o alw am sgiliau a chynyddu cynhyrchiant
- Darparu cyngor a chyfarwyddyd i gyflogwyr a gweithwyr ar sgiliau penodol ac ymarferion hyfforddi
- Annog cyfranogiad cydweithredol i wybodaeth farchnad lafur, economaidd a sgiliau ym mhob cenedl a rhanbarth.

GWEITHREDU

- Bydd Safonau a Chymwysterau, a fydd yn cynnwys fersiynau Cymraeg, yn y maes hwn yn cael eu hyrwyddo.
- Bydd IMI yn hyrwyddo manteision sgiliau dwyieithog o fewn y sector Adwerthu Moduron ac yn darparu cyfarwyddyd i gyflogwyr a gweithwyr ar sgiliau dwyieithog ac ymarferion hyfforddi.
- Drwy gydweithio'n agos gyda'r Uned Addysgu Dwyieithog a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn APADGOS, bydd IMI yn blaenoriaethu safonau a chymwysterau diwydiant sydd i'w cyfieithu i'r Gymraeg yn ôl y canfyddiadau diweddaraf yn rheolaidd.
- Drwy ymgynghori'n gyson efo APADGOS, bydd IMI yn sicrhau fod Cyrff Dyfarnu priodol yn gwarantu fod cyfleoedd asesu priodol ar gael ar gyfer y safonau a chymwysterau Cymraeg/dwyieithog sydd wedi eu blaenoriaethu. Bydd matrices yn cael ei ddatblygu yn olrhain safonau a chymwysterau sydd ar gael/fydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y matrices yma'n cael ei gyhoeddi fel atodiad i'r Cynllun erbyn canol 2011.
- Wrth adnabod, blaenoriaethu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant ac asesu dwyieithog, bydd IMI yn annog a chefnogi rhwydweithiau cydweithredol ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.

5. Delio â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

5.1 Gohebu Ysgrifenedig

- 5.1.1** Mae IMI yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd papur pennawd swyddogol IMI sydd i'w ddefnyddio yng Nghymru yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith a fydd yn esbonio fod gohebiaeth i'w chroesawu yn Gymraeg neu'r Saesneg.

- 5.1.2** Bydd y targedau amser a osodir (sef 5 diwrnod gwaith) wrth ateb gohebiaeth Gymraeg yr un â'r targedau amser a osodir wrth ateb gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi.
- 5.1.3** Bydd pob llythyr a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ateb yn y Gymraeg wedi'i lofnodi.
- 5.1.4** Bydd pob gohebiaeth, wedi sgwrs ffôn, wyneb yn wyneb neu gyfarfod lle y canfyddir mai'r Gymraeg yw dewis iaith yr unigolyn, er efallai nad yw'r drafodaeth wedi'i chynnal yn y Gymraeg eto, yn Gymraeg.
- 5.1.5** Bydd IMI yn gohebu â phob aelod o'r cyhoedd yn ei ddewis iaith os ydyw'n wybyddus.
- Bydd IMI yn casglu cronfa ddata o'r sawl sydd yn dymuno derbyn gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 5.1.6** Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol sydd i'w ddsbarthu gan IMI i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- 5.1.7** Caiff trefniadau i gyfieithu gohebiaeth eu gwneud yn ôl yr angen, a hynny o fewn yr amser penodedig ac yn yr iaith briodol. Bydd staff yn derbyn cyfarwyddyd ynghylch sut i gyflawni hyn.
- 5.1.8** Bydd IMI yn danfon yr holl ddeunydd sydd angen ei gyfieithu at gyfieithydd allanol cymeradwy a fydd wedyn yn cydymffurfio â'r targedau amser priodol.

5.2 Gohebu Electronig

- 5.2.1** Caiff yr egwyddorion a amlinellir yn adran 5.1. eu gweithredu wrth gyfathrebu'n electronig.
- 5.2.2** Pan fo mathau newydd o gyfathrebu a llefydd storio yn cael eu gosod ar gyfrifiaduron IMI, bydd gallu meddalwedd i ddelio â mwy nag un iaith yn ffactor i'w ystyried wrth brynu meddalwedd newydd, yn enwedig os yw'r fath systemau yn mynd i ddarparu allbwn/gwasanaeth dwyieithog.

5.3 Ffonio

- 5.3.1** Bydd Rheolwr IMI yng Nghymru yn cyfarch galwadau ffôn yn ddwyieithog ac yn medru delio gydag ymholiadau ffôn yn Gymraeg neu'r Saesneg.
- 5.3.2** Bydd hi'n ddyletswydd ar bawb sy'n ateb y ffôn ar ran IMI i ofalu na wna i'r rhai sy'n ffonio deimlo eu bod yn niwsans neu'n peri anghyfleustra am eu bod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg.

5.3.3 Bydd yr holl gyfarwyddyd a negeseuon ateb yn cael eu recordio'n ddwyieithog ar yr holl rifau a hysbysebwr yng Nghymru gyda'r hyn sydd wedi ei recordio yn dynodi y gall negeseuon gael eu gadael yn Gymraeg neu Saesneg.

5.3.4 Bydd y targedau amser a osodir, sef 5 diwrnod gwaith, yr un fath wrth ateb ymholiadau ffôn Cymraeg ag ydynt wrth ateb ymholiadau ffôn Saesneg.

5.4 Cyfarfodydd Cyhoeddus

5.4.1 Ni fydd IMI yn cynnal unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, os bydd IMI yn cynnal y fath gyfarfodydd yn y dyfodol, croesewir cyfraniadau yn Gymraeg neu'r Saesneg. Caiff hyn ei ddatgan yn glir ar yr holl hysbysiadau a fydd yn hyrwyddo'r cyfarfod a chaiff y sawl sy'n mynychu eu hatgoffa o'r dewis iaith ar ddechrau pob cyfarfod.

5.4.2 Yr unig eithriad i'r drefn uchod fydd cyfarfodydd y gwyddys ymlaen llaw na fydd angen cyfieithydd ynddynt, un ai:

- am fod pawb fydd yn bresennol yn deall Cymraeg
- am fod pawb fydd yn bresennol yn ddi-Gymraeg
- am y gwyddys mai Saesneg yw dewis iaith pawb fydd yn bresennol

5.4.3 Bydd yr holl lenyddiaeth (gwahoddiad, gwŷs, hysbyseb) a fydd yn hysbysebu'r cyfarfod yn ddwyieithog.

5.4.4 Pan yn hysbysebu'r cyfarfod, bydd yr holl lenyddiaeth yn cynnwys nodyn yn datgan fod croeso i'r rhai fydd yn bresennol ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg. Bydd gofyn iddynt hefyd roi gwybod i'r trefnydd ymlaen llaw ba iaith y dymunant ei defnyddio yn y cyfarfod, oblegid wedi derbyn yr atebion, bydd y trefnydd yn penderfynu a ddylid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ai peidio.

5.4.5 Os nad yw'n hysbys ymlaen llaw pwy fydd yn mynychu'r cyfarfod ac a fydd rhywun am siarad Cymraeg ynddo ai peidio, bydd trefnydd y cyfarfod yn penderfynu yn ôl ei ddoethineb/doethineb a ddylid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ai peidio. Bydd y penderfyniad hwnnw yn seiliedig ar natur y cyfarfod, ei leoliad daearyddol, pwy fydd y gynulleidfa debygol a'r profiad o gyfarfodydd blaenorol cyffelyb. Os oes gwir ansicrwydd o hyd, yna penderfynir o blaid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

5.4.6 Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gaiff ei ddefnyddio yng nghyfarfodydd cyhoeddus IMI, megis taflenni, agendâu, asetynnau, yn ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyflwyniadau *Pwerbwyt*.

5.4.7 Bydd IMI yn ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth ynghylch cyfarfod yn newis iaith yr unigolyn.

5.4.8 Bydd IMI yn sicrhau presenoldeb staff Cymraeg i groesawu a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg ymhlith y sawl sy'n mynychu ac yn cyfrannu yn y cyfarfodydd. Bydd y swyddog(ion) yma'n gwisgo bathodynau "Iaith Gwaith" er mwyn dynodi eu bod yn rhugl yn Gymraeg neu wrthi'n dysgu Cymraeg.

5.5 Cyfarfodydd heb fod yn gyhoeddus

5.5.1 Mae croeso i'r sawl sydd am gynnal cyfarfod preifat neu wyneb yn wyneb gydag IMI wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg.

5.5.2 Caiff dewis iaith ei gynnig wrth drefnu cyfarfodydd, ac os mai'r Gymraeg yw'r cyfrwng a ddewisir, caiff trefniadau eu gwneud gyda'r staff Cymraeg priodol.

5.5.3 Drwy gynnig dewis iaith, mae IMI yn cydnabod:

- Y gall unigolion fynegi'u hunain a'u hanghenion yn fwy effeithiol yn eu dewis iaith.
- Bod galluogi unigolion i ddefnyddio'u dewis iaith yn fater o ymarfer da ac nid yn gonsesiwn.
- Drwy wadu hawl unigolion i ddefnyddio'u dewis iaith, mi all hyn eu rhoi dan anfantais.

5.5.4 Mae'r mesurau uchod yn berthnasol i bob math o gyfarfod sydd heb fod yn gyhoeddus.

6. Wyneb Cyhoeddus y CSS

6.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

6.1.1 Bydd IMI yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru sy'n gwbl ddwyieithog.

6.1.2 Mae hyn yn cynnwys enw IMI, ei gyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol, slogan gorfforaethol ac unrhyw wybodaeth safonol arall sydd i'w defnyddio ar:

- Papur pennawd, papur ffacs, slipiau cyfarch, llofnodion e-bost.
- Yr holl ddeunydd marchnata/hysbysebu (h.y. cylchlythyrau, posteri, taflenni ac ati) sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd.
- Cardiau busnes, gwahoddiadau, bathodynau adnabod.

6.2. Gwefan

6.2.1 Bydd aelodau o'r cyhoedd yn medru dod o hyd i wybodaeth drwy gyfrwng gwefan IMI, a hynny yn Gymraeg a Saesneg. Er na fydd tudalen groeso DU IMI yn ddwyieithog, bydd yn cynnwys is-adran glir ar IMI yng Nghymru.

- 6.2.2** Bydd y wefan hon wedyn yn cynnwys tudalen groeso ddwyieithog gyda thudalennau dilynol i'w cael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd pob tudalen yn dynodi dewis iaith yn glir ac mae IMI yn cydnabod mai'r ffurf orau o lywio ieithyddol yw dewis iaith ar bob tudalen lle y ceir fersiwn iaith arall hefyd ar ei chyfer.
- 6.2.3** Bydd tudalennau Cymraeg a Saesneg y wefan yn cael eu gwerthuso a'u diweddarau ar yr un pryd.
- 6.2.4** Wrth weithredu'r Cynllun, bydd y canlynol ar gael yn ddwyieithog: deunydd gwybodaeth gyfaol, deunydd marchnata IMI, cylchlythyrau, taflenni gwybodaeth, ffeithlenni ac adroddiadau blynyddol.
- 6.2.5** Bydd yr holl ddeunydd a darpariaeth Gymraeg a Saesneg yn gyson o safbwynt eu diweddariad, cywirdeb, amlygrwydd, eglurder ac ansawdd gyda deunyddiau yn y ddwy iaith cyn hawsed â'i gilydd i'w dadlwytho.
- 6.2.6** Caiff y staff i gyd, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwr gyfarwyddyd ysgrifenedig (e.g. Canllawiau Dylunio Dwyieithog) i'w cynorthwyo i lunio a delio gyda deunydd dwyieithog.

6.3 Arwyddion

- 6.3.1** Nid oes gan IMI swyddfeydd yng Nghymru. Fodd bynnag, pan fydd IMI yn defnyddio adeiladau preifat/allanol/ar rent, bydd yn sicrhau bod yr holl arwyddion gwybodaeth yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion dwyieithog yn y derbynfydd a fydd yn hysbysu'r cyhoedd o'u hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu Saesneg.
- 6.3.2** Bydd IMI yn sicrhau fod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o safbwynt maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.
- 6.3.3** Er mai arwyddion dwyieithog yw'r opsiwn cyntaf, bydd arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, o'u darparu, yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.
- 6.3.4** Os bydd IMI yn symud i adeiladau newydd yng Nghymru yn y dyfodol agos, bydd yn parhau i lynu at yr egwyddorion a amlinellir yn adran 6.3.
- 6.3.5** Bydd pob arwydd dwyieithog a fersiwn Gymraeg ar wahân yn cael eu prawf-ddarllen gan gyfieithydd cymeradwy er mwyn gwarantu cysondeb yn safon y Gymraeg.
- 6.3.6** Mae'r mesurau yma'n berthnasol i arwyddion parhaol a thros dro.

6.4 Cyhoeddi a Phrintio Deunydd i'w ddosbarthu i'r cyhoedd yng Nghymru

- 6.4.1** Ar hyn o bryd, nid yw IMI yn cyhoeddi ei holl gyhoeddiadau a anelir at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Fodd bynnag, ein nod, o fewn y 3 mlynedd nesaf, yw sicrhau fod yr holl gyhoeddiadau a ddsberthir i'r cyhoedd yng Nghymru'n ffurfio un ddogfen ac yn ddwyieithog, fel y nodir yn Atodiad 1. Bydd y fersiynau'n cael eu printio gefn wrth gefn lle bo'n bosibl er mwyn hwyluso dosbarthiad, croesgyfeirio a dewis iaith.
- 6.4.2** Mae Atodiad 1 yn dangos pa ddogfennau fydd yn ddwyieithog, pa rai fydd wedi'u cyhoeddi mewn fersiynau ar wahân a pha rai fydd yn Saesneg yn unig.
- 6.4.3** Os codir tâl am ddogfen ddwyieithog, ni fydd ei phris yn uwch na fersiwn uniaith ohoni.
- 6.4.4** Er mai cyhoeddiadau dwyieithog, unigol, yw'r opsiwn gorau, pan fo fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, cânt eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddent yr un mor hygyrch â'i gilydd.
- 6.4.5** Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cynnwys neges yn dynodi fod y cyhoeddiad hefyd i'w ganfod yn yr iaith arall.
- 6.4.6** Ni fydd pris fersiwn Gymraeg unrhyw ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.
- 6.4.7** Caiff y staff i gyd, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwr gyfarwyddyd ysgrifenedig (e.e. Canllawiau Dylunio Dwyieithog) i'w cynorthwyo i ddelio â deunydd dwyieithog.
- 6.4.8** Bydd pob cyhoeddiad dwyieithog a fersiynau Cymraeg ar wahân yn cael eu prawf-ddarllen gan gyfieithydd cymeradwy er mwyn gwarantu cysondeb yn safon y Gymraeg.

6.5 Ffurflenni a Deunydd Esboniadol Cysylltiedig

- 6.5.1** Ar hyn o bryd, nid yw IMI yn cyhoeddi ei holl ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig a anelir at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Fodd bynnag, ein nod, o fewn y 3 mlynedd nesaf, yw sicrhau fod yr holl gyhoeddiadau a ddsberthir i'r cyhoedd yng Nghymru'n ffurfio un ddogfen ac yn ddwyieithog. Bydd y fersiynau'n cael eu printio gefn wrth gefn lle bo'n bosibl er mwyn hwyluso dosbarthiad, croesgyfeirio a dewis iaith fel y nodir yn Atodiad 1.
- 6.5.2** Mae Atodiad 1 yn nodi pa ddogfennau fydd yn ddwyieithog, pa rai fydd wedi'u cyhoeddi mewn fersiynau ar wahân a pha rai fydd yn y Saesneg yn unig.

6.5.3 Bydd yr holl gyhoeddiadau uchod yn cydymffurfio ag ymrwymïadau 6.4.3. i 6.4.8. yn yr adran **Cyhoeddi a Phrintio Deunydd i'w ddsbarthu i'r cyhoedd yng Nghymru.**

6.6 Hysbysiadau i'r Wasg

6.6.1 Bydd pob hysbyseb a datganiad gan IMI i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog.

6.6.2 Anfonir datganiadau yn Saesneg i gyfryngau y gwyddwn eu bod yn uniaith Saesneg ac yn Gymraeg i gyfryngau y gwyddwn eu bod yn uniaith Gymraeg.

6.6.3 Bydd y canlynol yn gyfrifol am hwyluso'r trefniadau uchod: Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus/Marchnata IMI, Fanshaws, Brickendon, Hertford SG13 8PQ.

6.7 Gweithgareddau Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

6.7.1 Bydd IMI yn cynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwyieithog, a hynny mewn modd sy'n trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal. Bydd IMI yn cydymffurfio â'r ymrwymïadau a amlinellir o fewn y Cynllun hwn (o dan adran 6.4) yng nghyd-destun cyhoeddiadau o'r fath.

6.7.2 Bydd y canlynol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog:

- Yr holl lenyddiaeth farchnata wedi'i hanelu at y cyhoedd
- Arolygon a deunydd marchnata "drwy'r post"
- Hysbysebion yn y wasg / cyfryngau
- Arolygon cyhoeddus
- Ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol
- Stondinau gwybodaeth ac arddangosfeydd
- Hysbysebu ar bosteri

6.7.3 Bydd IMI yn sicrhau presenoldeb staff Cymraeg i groesawu a hwyluso defnydd o'r iaith yn ei holl weithgareddau cyhoeddus. Bydd y swyddog(ion) uchod yn gwisgo bathodynau "Iaith Gwaith" er mwyn dynodi eu bod yn rhugl neu wrthi'n dysgu Cymraeg.

6.8 Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff

6.8.1 Bydd IMI yn sicrhau fod yr holl hysbysiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd o safbwynt fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd; boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall.

6.8.2 Bydd y canlynol yn eithriadau i'r trefniadau uchod:

- hysbysiadau cyhoeddus mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Bydd y rhain yn ymddangos yn Gymraeg yn unig.

- hysbysiadau mewn cyhoeddiadau a gylchredir drwy'r D.U. neu'n ehangach. Bydd y rhain yn ymddangos yn Saesneg yn unig.

6.8.3 Wrth baratoi a chyhoeddi hysbysebion i recriwtio staff yng Nghymru, bydd IMI yn dilyn y drefn a ganlyn.

(a) Bydd hysbysebion am swyddi y mae medru'r Gymraeg yn *hanfodol* ar eu cyfer yn ymddangos;

- yn Gymraeg un unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg eu hiaith a gylchredir yn bennaf yng Nghymru ond gyda brawddeg esboniadol fer yn Saesneg

(b) Bydd hysbysebion am swyddi y mae medru'r Gymraeg yn *ddymunol* ar eu cyfer yn cael eu cyhoeddi:

- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru yn bennaf
- yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau sy'n cylchredeg drwy'r D.U. yn bennaf
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg

(c) Bydd hysbysebion am swyddi nad oes unrhyw ofyniad ieithyddol wedi'i bennu'n rhan o Strategaeth Sgiliau Ieithyddol IMI yn cael eu cyhoeddi:

- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru yn bennaf
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg
- yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg y tu allan i Gymru'n bennaf

7. Gweithredu ac Arolygu'r Cynllun

7.1. Staffio

7.1.1. Er mwyn sicrhau dros gyfnod o amser fod IMI yn gallu darparu ei wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i safon uchel, yn effeithlon ac effeithiol, bydd yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel rhan o'i broses gynllunio adnoddau dynol. Bydd y Strategaeth hon yn galluogi IMI i gael trosolwg o'i adnoddau a'i anghenion sgiliau ieithyddol, gan gydlynu hyfforddiant a recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun. Bydd y mesurau isod yn rhan o'r Strategaeth hon.

7.1.2. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad uchod, bydd IMI yn cynnal arolwg o'i wasanaethau, ei ddarpariaethau a'i staff er mwyn dynodi'n wrthrychol:

- pa weithleoedd neu sefyllfaoedd gwasanaethol sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru a natur y cyswllt hwnnw
- pa sgiliau dwyieithog a feddir gan y staff presennol ac i ba raddau y mae gan y staff ddiddordeb mewn dysgu neu wella eu sgiliau

- 7.1.3.** Ar ôl cynnal a dadansoddi'r arolwg uchod, bydd IMI yn dynodi'r swyddi hynny y mae medru cyfathrebu yn y Gymraeg ar eu cyfer yn *hanfodol*, yn *fanteisiol*, neu'n ddiangen. Caiff swydd-ddisgrifiadau wedyn eu llunio yn unol â'r canllawiau yn adran 6.8.
- 7.1.4.** Bydd pob swydd newydd a phob un o'r swyddi presennol a ddaw'n wag yn cael eu hystyried yng ngoleuni Strategaeth Sgiliau Ieithyddol y Cynllun hwn. Wrth wneud hynny, bydd IMI yn ymwybodol o'r angen i fanteisio ar bob cyfle i unioni unrhyw ddiffygion mewn sgiliau iaith Gymraeg a fydd yn effeithio ar y gallu i gynnig darpariaeth gwasanaeth iaith Gymraeg IMI.
- 7.1.5.** Wrth ymrwmo i fonitro gweithrediad y Cynllun, bydd IMI yn cymryd camau cadarnhaol i adfer y sefyllfa os bydd nifer y siaradwyr Gymraeg mewn swyddi sy'n gysylltiedig â'r Cynllun yn dechrau lleihau.

7.2 Dysgu Cymraeg

- 7.2.1** Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn unol â graddau amrywiol o allu ac mewn amrywiol sefyllfaoedd gwasanaethol yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun hwn. Mae IMI yn cydnabod hefyd fod y gallu i ddeall a siarad Cymraeg yn y gweithle o ddydd i ddydd yn sgil gwerthfawr sydd yn medru cynorthwyo staff i ddarparu gwasanaeth cyflawn i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.
- 7.2.2** Bydd IMI yn cefnogi gweithrediad y Cynllun hwn drwy annog a chefnogi yr aelodau staff hynny sydd am ddysgu Cymraeg neu am loywi'u Cymraeg.
- 7.2.3** Bydd IMI yn trefnu rhaglenni dysgu a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar weithleoedd a swyddi sy'n bwysig i wireddiad y Cynllun. Bydd cyrsiau o'r fath ar gael i'r sawl sy'n dechrau dysgu Cymraeg ac i'r rhai hynny sydd am wella'u gallu i siarad ac ysgrifennu'r iaith. IMI fydd yn gyfrifol am dalu costau'r fath gyrsiau.
- 7.2.4** Mae unig gynrychiolydd IMI yng Nghymru yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Os bydd aelod newydd o staff yn cael ei recriwtio nad yw'n medru'r Gymraeg, bydd IMI yn glynu at yr egwyddorion uchod i hyrwyddo darpariaeth ddwyieithog y sefydliad. Bydd yn cyflawni hyn drwy sicrhau gwasanaethau siaradwyr Cymraeg a chyfieithwyr Cymraeg fel y bo'r gofyn.

7.3 Recriwtio

- 7.3.1** Wrth recriwtio staff, bydd IMI yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod croeso i siaradwyr Cymraeg ymuno â'i weithlu. Bydd yn gwneud hyn yn glir ymhob hysbyseb, manylebau'r person a disgrifiadau o rolau.
- 7.3.2** Bydd IMI wedyn yn ceisio sicrhau siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol a digonol i hwyluso gweithrediad y Cynllun hwn. Bydd pob hysbyseb recriwtio ar

gyfer pob swydd sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg ynghyd â'r swydd-ddisgrifiad neu'r manylion perthnasol, yn cael eu geirio mewn modd sy'n nodi'n eglur ofynion ieithyddol y swydd yn unol â pharagraffau 7.1.3. a 7.1.4. uchod.

- 7.3.3** Ar adegau, lle y bydd anhawster recriwtio staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol, efallai y bydd angen penodi rhywun nad yw'n siarad Cymraeg i swydd lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn *hanfodol*. Fodd bynnag, bydd IMI yn hysbysebu a chynnig swyddi o'r fath ar y ddealltwriaeth y bydd angen i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ddysgu'r iaith fel amod o gyflogaeth a chyrraedd lefel foddhaol o ruglder o fewn cyfnod penodol rhesymol. Dylai'r lefel rhuglder a bennir fod yr hyn sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau'r swydd, a dylid gwneud hynny'n glir i ymgeiswyr yn y manylion swydd, ochr yn ochr â chefnogaeth IMI iddynt ddysgu'r iaith.
- 7.3.4** Wrth fwrw ymlaen â threfniadau o'r fath, bydd IMI yn rhoi'r amser a'r cymorth angenrheidiol i alluogi'r aelod o staff i fodloni'r amod gan sicrhau nad ydyw dan anfantais mewn modd arall oherwydd cadw at yr amod. Mae angen cynllunio'r rhaglen ddysgu a'i harolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyflogwyr a'r aelod staff yn cadw at eu gair. Bydd hyn yn rhan o sicrhau bod gan IMI yn ei gyfanrwydd nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu i gyflwyno'r gwasanaethau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun hwn.
- 7.3.5** Drwy weithredu fel hyn, bydd IMI yn trin gallu ieithyddol yn yr un modd yn union ag unrhyw sgil broffesiynol arall a all fod yn ofynnol ar gyfer cyflawni swydd ac a fydd yn destun adolygiad ymhen cyfnod penodedig. Gan hynny, rhaid parchu a gweithredu yn ôl yr amod cyflogaeth hwn yr un mor bendant â phob amod cyflogaeth arall a bydd IMI yn adolygu cyrhaeddiad y sawl a benodir o fewn cyfnod penodedig wedi'r penodiad.
- 7.3.6** Pan ddaw swydd yn wag, caiff ei hysbysebu mewn modd a fydd yn cadarnhau fod sgiliau dwyieithog yn *ddymunol* er mwyn caniatáu i IMI gynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd.

7.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

- 7.4.1** Mae IMI wedi'i ymrwymo i ddatblygu gallu ei staff i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn iddynt ymgynefino â thrin a thrafod eu priod feysydd proffesiynol gyda'r cyhoedd yn Gymraeg.
- 7.4.2** Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad uchod, bydd IMI yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg cyn darparu hyfforddiant galwedigaethol er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun.
- 7.4.3** O gofio natur gwaith IMI, bydd yn gweithredu'r ymrwymadau hyn drwy:
- ddarparu hyfforddiant mewn sgiliau ffôn
 - darparu mynediad i raglenni hyfforddiant Cymraeg priodol

- darparu pecynnau meddalwedd TG Cymraeg ar gyfrifiaduron, wedi'u cefnogi gan hyfforddiant perthnasol.

8. Trefniadau Gweinyddol

- 8.1 Awdurdod:** Mae IMI yn cadarnhau fod y Cynllun hwn a'i holl fesurau wedi'u cymeradwyo ar y lefel uchaf ac yn derbyn cefnogaeth lawn yr awdurdodau rhanbarthol a chanolog wrth iddynt gael eu gweithredu.
- 8.2 Cyfrifoldeb:** Bydd IMI yn enwebu ei Brif Swyddog Gweithredol i fod yn bennaf gyfrifol am weithredu a monitro'r Cynllun.
- 8.3** Y Rheolwr Cenedlaethol yng Nghymru fydd yn gyfrifol am reoli'r Cynllun o ddydd i ddydd ac am integreiddio'r agweddau o wasanaeth IMI sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg o fewn ei brosesau gweinyddol arferol lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- 8.4 Cyfarwyddyd ac Arweiniad:** Bydd IMI yn sicrhau fod ei holl staff yng Nghymru a'r rhai hynny sydd yn delio gyda'r cyhoedd yng Nghymru yn derbyn cyfarwyddyd ar y Cynllun a'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt (Gweler adran 3.1.1)
- 8.5** Bydd yr holl gyfieithwyr a ddefnyddir gan IMI wedi'u cymeradwyo gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu byddent yn gyfieithwyr profiadol a sefydledig y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cytuno i'w defnyddio.

9. Gwasanaethau ar ran IMI gan Bartïon Eraill.

- 9.1** Bydd IMI yn sicrhau y bydd unrhyw gytundeb neu drefniant sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a wneir gyda thrydydd parti yn gyson â thelerau'r Cynllun iaith hwn. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau newydd neu wasanaethau sydd eisoes wedi'u contractio allan.
- 9.2** Bydd IMI hefyd yn gwarantu drwy drefniadau contractio y gall, y bydd a bod yr asiant, contractwr neu'r is-contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o Gynllun IMI ei hun wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran neu o dan ei oruchwyliaeth.
- 9.3** Bydd IMI yn cydweithio gyda chyflenwyr i annog gweithrediad eu Cynlluniau iaith hwy eu hunain.
- 9.4** Bydd rhaid i'r trydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r mesurau perthnasol o Gynllun iaith Gymraeg IMI drwy adroddiad perfformiad neu dystiolaeth arall.
- 9.5** Bydd IMI yn darparu cyfarwyddyd ysgrifenedig i'r staff sydd yn delio gydag asiantau a chontractwyr ac yn dyfeisio prosesau er mwyn sicrhau fod staff yn glynu atynt.

10. Partneriaethau

10.1 Mae IMI yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o gyrff cyhoeddus megis Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gyrfa Cymru, a Chanolfan Byd Gwaith. Mae IMI yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill.

- i) Pan fo IMI yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Cynllun Iaith, e.e. taflenni cyflogwr dwyieithog Peilot Dysgu Seiliedig ar Waith.
- ii) Pan fo IMI yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei harwain, bydd mewnbwn IMI i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd y sefydliad yn annog y partion eraill i gydymffurfio.
- iii) Pan fo IMI yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm bydd y sefydliad yn gweithredu'n unol â'i Gynllun Iaith.
- iv) Pan fo IMI yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith, polisiâu iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd IMI yn cynnig cyngor a chymorth i'r partion eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth, e.e. gwaith prosiect ar y cyd.

11. Monitro Gweithrediad y Cynllun

11.1 Bydd Prif Swyddog Gweithredu IMI yn bennaf gyfrifol am fonitro'r Cynllun ac am ei adolygu'n barhaol fel yr amlinellir yn adran 8.2.

11.2 Bydd IMI yn monitro cynnydd yn rheolaidd ac yn paratoi adroddiad cynnydd mewnlol ar weithrediad y Cynllun a gaiff ei gyflwyno i'r tîm rheoli. Bydd yn gwneud hyn bob chwe mis.

11.3 Bydd Bwrdd IMI yn derbyn adroddiad cydymffurfiaeth blynyddol fydd yn ei alluogi i ateb y ddau gwestiwn sylfaenol canlynol:

- A yw IMI yn cydymffurfio â'r Cynllun?
- Pa mor dda y mae'n gwneud hynny?

Wrth wneud hyn, bydd yr adroddiad yn delio â:

- gwasanaeth Cymraeg gweinyddol IMI
- asesu themâu penodol wrth weithredu'r Cynllun, gan gynnwys cyfraniad IMI i ddatblygiad darpariaethau dwyieithog/Cymraeg
- digonolrwydd hyfedredd ieithyddol IMI i weithredu gofynion y Cynllun Iaith.

11.4 Bydd IMI yn gofyn barn siaradwyr Cymraeg yn achlysurol am gwmpas ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad.

- 11.5 Bydd monitro'r Cynllun yn weithgarwch strwythuredig a pharhaol, ac os bydd yr adroddiad yn canfod gwendidau, bydd IMI yn paratoi cynllun gweithredu fydd yn ateb unrhyw wendid a ganfuwyd.
- 11.6 Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei anfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 11.7 Yn ystod y drydedd flwyddyn o weithredu'r Cynllun hwn, bydd IMI yn paratoi **adroddiad gwerthuso** cyflawn a fydd yn gwerthuso perfformiad wrth weithredu'r Cynllun dros y tair blynedd gyntaf. Er mwyn adolygu a diweddarau ei Gynllun Iaith a thrwy hynny dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer yr ail gyfnod o weithredu, bydd yr adroddiad yn:
- darparu gorolwg a dadansoddiad thematig o gydymffurfiaeth a pherfformiad wrth weithredu'r Cynllun dros y tair blynedd, yn nhermau Darparu Gwasanaeth a Rheoli'r Cynllun.
 - amlinellu blaenoriaethau IMI ar gyfer y tair blynedd ddilynol ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Cynllun.
 - yn rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd IMI yn cynnal arolwg o fodlonrwydd y cyhoedd er mwyn cael eu barn am gwmpas ac ansawdd ei wasanaethau dwyieithog.
- 11.8 Bydd yr adroddiad blynyddol a ddarperir gan IMI i Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn fformat a fydd wedi'i gytuno gan y Bwrdd, ac yn disgrifio datblygiad gweithrediad y mesurau yn y Cynllun yn erbyn yr amserlenni a'r safonau cymeradwy. Bydd hefyd yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau am welliannau sydd wedi eu derbyn oddi wrth y cyhoedd.

12. Cyhoeddi Gwybodaeth.

- 12.1 Mae IMI wedi'i ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd sy'n cymharu perfformiad yn erbyn y safonau a'r targedau a nodir yn y Cynllun.
- 12.2 Bydd IMI yn gwireddu'r ymrwymiad uchod drwy:
- gyhoeddi adroddiad cyfnodol fel yr amlinellir yn 11.2 a 11.3
 - gosod yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol
 - gosod crynhoad o'r wybodaeth yma mewn cylchlythyrau ac ar y wefan ac ati.
- 12.3 Lle bo IMI wedi methu cyrraedd at dargedau, caiff esboniad am hyn ei gynnig a disgrifiad o sut a phryd y bydd yn cyrraedd targedau diwygiedig.

13. Cyhoeddusrwydd (Adran 12(2)(b) o'r Ddeddf)

- 13.1 Mae IMI yn ymrwymo i sicrhau cyhoeddusrwydd cychwynnol a pharhaol i'r Cynllun Iaith hwn. Bydd hyn yn sicrhau, ar y naill law, fod y cyhoedd a phawb a ddaw i gysylltiad ag IMI yn ymwybodol o'i ddarpariaethau a'i wasanaethau yn Gymraeg a

bod staff cyflogedig, asiantiaid a chontractwyr IMI, ar y llaw arall, yn ymwybodol o'r angen i weithredu yn unol â'r Cynllun hwn.

13.2 Bydd IMI yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w Gynllun iaith Gymraeg drwy baratoi copïau ohono a fydd ar gael i gyrff/mudiadau perthnasol, cyflogeion neu aelodau o'r cyhoedd sy'n gofyn amdano. Bydd IMI hefyd yn paratoi gwe-dudalen a fydd yn esbonio prif elfennau'r Cynllun ac yn manylu ar natur, lleoliad ac argaeledd y gwasanaethau dwyieithog. Bydd y fath ddeunyddiau ar gael hefyd i'r holl gyrff/mudiadau perthnasol, cyflogwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

13.3 Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad ynghylch y Cynllun at:
Prif Swyddog Gweithredu, The Institute of the Motor Industry, Fanshaws, Brickendon, Hertford, SG13 8PQ

14. Cwynion/Awgrymiadau a Manylion Cyswllt

14.1 Bydd IMI yn mabwysiadu trefn gwyno er mwyn delio â chwynion sy'n ymwneud â'r Cynllun, a hynny fel rhan o drefn gwyno gyffredinol IMI. Dylid cyfeirio pob ymholiad yn ymwneud â'r drefn gwyno at: Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Mewnol, IMI, Fanshaws, Brickendon, Hertford, SG13 8PQ.

14.2 Bydd IMI yn croesawu ac yn cadw cofnod o unrhyw gwynion neu awgrymiadau am welliannau er mwyn gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog i'r cyhoedd. Cyfeiriwch y fath ohebiaeth at: IMI, Fanshaws, Brickendon, Hertford, SG13 8PQ.

15. Targedau

15.1 Byddwn yn gosod targedau penodol ar gyfer gweithredu'r mesurau a amlinellir yn y Cynllun. Bydd y targedau yma'n dynodi'r camau sydd eisoes wedi eu cymryd, y rhai hynny y gellir eu gweithredu ar unwaith, y rhai hynny a bennir yn dargedau tymor byr, targedau canolig a thargedau hirdymor. Bydd y fath dargedau yn eglur, diamwys a pherthnasol.

16. Amserlen (adran 12(2)(a) o'r Ddeddf)

16.1 Heblaw ei fod wedi'i nodi'n wahanol, bydd yr ymrwymadau a amlinellir yn y Cynllun hwn yn weithredol o'r dyddiad y caiff y Cynllun ei gymeradwyo. Bydd y broses fonitro wedyn yn dilyn y drefn a amlinellir yn adran 11. Er enghraifft:

Paragraff	Ymrwymiad	Amserlen	Y Swyddog sy'n Gyfrifol
3.1	Sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o gynllun iaith Gymraeg IMI.	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Rheolwr Cenedlaethol Cymru

Paragraff	Ymrwymiad	Amserlen	Y Swyddog sy'n Gyfrifol
3.1	Sicrhau fod pob polisi a menter newydd yn cymryd gofynion cynllun iaith Gymraeg IMI i ystyriaeth.	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Yr Uwch Dîm Rheoli / Rheolwr Cenedlaethol IMI
3.2	Darparu gwasanaethau yn Gymraeg sydd o'r un ansawdd uchel â'r rheiny a ddarperir yn Saesneg.	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Yr Uwch Dîm Rheoli / Rheolwr Cenedlaethol IMI
3.3	Gwneud archwiliad o'r gwasanaethau a ddarperir er mwyn canfod y ffordd orau o symud tuag at ddarparu'r rhain yn Gymraeg	Diwedd 2011	Rheolwr Cenedlaethol Cymru
4.3/4.4	Ymchwilio'r anghenion a'r ddarpariaeth iaith Gymraeg o fewn y sector	Diwedd 2011	Rheolwr Cenedlaethol Cymru
4.5	Darparu arweiniad ar argaeledd y cyfleoedd i hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn y sector.	Diwedd 2011	Rheolwr Cenedlaethol Cymru
4.5	Datblygu gwasanaeth cyngor ac arweiniad dwyieithog i gwmnïau unigol.	Diwedd 2011/2012	Rheolwr Cenedlaethol Cymru
4.5	Darparu arweiniad ar argaeledd y cyfleoedd i hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.	Diwedd 2011	Rheolwr Cenedlaethol Cymru / Rheolwr Ymchwil
4.6	Datblygu Cynllun Datblygu'r Gweithlu i Gymru.	Cwblhawyd	Rheolwr Cenedlaethol Cymru
4.7	Ffurio partneriaeth gyda'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i weithio tuag at gytuno ar y blaenoriaethau o ran anghenion sgiliau dwyieithog y sector.	Diwedd 2011	Rheolwr Cenedlaethol Cymru
4.7	Datblygu matrices o gymwysterau sydd ar gael ar gyfer y sector yn y Gymraeg	Diwedd 2010	Rheolwr Ymchwil
5.1	Papur pennawd swyddogol IMI i gael ei ddefnyddio yng Nghymru ac unrhyw ohebu i ddigwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal.	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Rheolwr Cenedlaethol Cymru
5.3	Sicrhau bod gan y rheolwr gweithrediadau negeseuon peiriant ateb yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Rheolwr Cenedlaethol Cymru
5.4	Os bydd IMI yn cynnal unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yn y dyfodol, byddwn yn croesawu cyfraniadau yn y	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Uwch Dîm Rheoli IMI

Paragraff	Ymrwymiad	Amserlen	Y Swyddog sy'n Gyfrifol
	Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Byddwn yn datgan hyn yn glir ar bob hysbysiad sy'n hysbysu neu'n hysbysebu'r cyfarfod a byddwn yn rhoi gwybod am y dewis ieithyddol hwn i'r bobl sy'n mynychu.		
5.5	Mae croeso i unrhyw un sydd eisiau cynnal cyfarfod preifat neu un-i-un gydag IMI wneud hynny naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg	2011/2012	Uwch Dîm Rheoli IMI
6.1	Mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog yng Nghymru	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Rheolwr Cenedlaethol Cymru
6.2	Dogfennaeth ddwyieithog ar y wefan	Yn cychwyn yn awr – ac i'w gwblhau o fewn 3 blynedd	Pennaeth Materion Allanol
6.3	Darparu arwyddion yn y Gymraeg yng Nghymru	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Rheolwr Cenedlaethol Cymru
6.4 & 6.5	Sicrhau bod cyhoeddiadau/ffurflenni a deunydd cysylltiedig sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.	O fewn 3 blynedd	Uwch Dîm Rheoli IMI
6.6	Gwneud datganiadau i'r wasg yng Nghymru'n ddwyieithog	2010	Pennaeth Materion Allanol
6.7 & 6.8	Hysbysebu'n ddwyieithog yng Nghymru	Diwedd 2010	Uwch Dîm Rheoli IMI
7.1	Gwneud archwiliad i ganfod y gofyn am staff sy'n gallu'r Gymraeg	2010	Uwch Dîm Rheoli IMI
7.2	Cefnogi staff sydd eisiau dysgu Cymraeg	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Uwch Dîm Rheoli IMI
7.3	Croesawu ceisiadau gan staff sy'n siarad Cymraeg wrth recriwtio	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Uwch Dîm Rheoli IMI
7.4	Sicrhau bod hyfforddiant galwedigaethol ar gael i staff drwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo'n briodol	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Uwch Dîm Rheoli IMI
9	Sicrhau nad yw partïon eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran IMI yn torri telerau cynllun iaith Gymraeg IMI	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Uwch Dîm Rheoli IMI

Paragraff	Ymrwymiad	Amserlen	Y Swyddog sy'n Gyfrifol
10	Sicrhau bod darpariaethau cynllun iaith Gymraeg IMI yn derbyn ystyriaeth briodol wrth weithio gyda phartneriaid yng Nghymru.	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Uwch Dîm Rheoli IMI
11	Monitro gweithrediad y cynllun iaith Gymraeg yn rheolaidd	Bob 6 mis	Uwch Dîm Rheoli IMI
11.7	Cynhyrchu adroddiad gwerthuso	O fewn 3 blynedd	Uwch Dîm Rheoli IMI
12	Cyhoeddi gwybodaeth am y cynllun yn rheolaidd	Fel y cytunwyd	Uwch Dîm Rheoli IMI
14	Delio gyda phob cwyn drwy'r drefn gwynion gywir	Unwaith y mae'r Cynllun wedi'i gytuno	Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Mewnol

Atodiad 1: Arweiniad a Meini Prawf i Benderfynu a fydd Dogfennau'n Ddwyeithog neu'n Uniaith Saesneg

Categori A: Eitemau sydd i fod yn ddwyeithog

- Llyfrynau gwybodaeth/taflenni/pamffledi i gael eu defnyddio yng Nghymru
- Papur llythyru gyda phennawd/slipiau cyfarch i'w defnyddio gan Reolwr Cenedlaethol Cymru IMI
- Deunydd gwybodaeth yn hysbysebu cyfarfodydd/digwyddiadau
- Arwyddion/posteri gwybodaeth
- Cylchlythyrau a llythyrau arferol at y cyhoedd yng Nghymru
- Dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud yn benodol â'r iaith Gymraeg
- Adroddiadau blynyddol
- Taflenni newyddion (ar y we) – adran Cymru
- Ffurflenni cais am swyddi
- Holiaduron/arolygon i'w defnyddio gyda'r cyhoedd yng Nghymru

Categori B: Eitemau sydd i gael eu cyhoeddi mewn dwy iaith ar wahân

- Gwefan IMI
- Hysbysebion yn y wasg Gymraeg
- Hysbysiadau a datganiadau i'r wasg Gymraeg
- Crynodebau gweithredol o ddogfennau arwyddocaol
- Dogfennau ymgynghori

Categori C: Eitemau y mae eu statws ieithyddol i gael ei benderfynu gan ddefnyddio'r meini prawf dros y dudalen

- Papurau pwyllgorau
- Adroddiadau
- Papurau Ymchwil
- Strategaethau
- Pecynnau hyfforddi i'r sector eu defnyddio
- Deunydd gyrfaol i'w ddefnyddio gan y sector
- Ffurflenni ymaelodi
- Dogfennau eraill a gyhoeddir

Categori D: Eitemau fydd mewn un iaith fel arfer

- Cyfrifon (heblaw'r rheiny sy'n rhan o Adroddiad Blynyddol a gyfieithwyd mewn perthynas â'r meini prawf ar gyfer categori A)
- Taflenni i'w dosbarthu mewn cynhadledd a ddarparwyd gan gyrff neu unigolion eraill
- Dogfennau contract (ac eithrio mewn sefyllfaoedd penodol)
- Gwybodaeth hanesyddol/archif
- Eitemau a ddosbarthwyd ar ran sefydliadau eraill
- Papurau a ddarparwyd gan bartïon eraill nad ydynt dan gontract
- Drafftiau sydd heb eu cwblhau'n derfynol

NODWCH: Mae'n annhebygol y bydd y rhestr hon yn cynnwys yr holl fathau o ddogfennaeth sydd i gael ei chynhyrchu. Bydd y staff yn defnyddio eu synnwyr cyffredin i farnu i ba gategori y dylai'r ddogfen berthyn drwy gymharu gyda'r eitemau a restrir ac asesu a ddylai eitemau fod yn ddwyieithog.

Meini prawf i asesu a yw dogfennau Categori C yn addas i'w cyfieithu ac angen eu cyfieithu

Ystyriaethau a chwestiynau i'w hystyried	2 bwynt	1 pwynt	0 pwynt
Nifer y copïau mewn print (os yw'n fersiwn electronig yn unig, faint sydd ar y rhestr ddogfennaeth/gronfa ddata neu faint o weithiau mae pobl wedi'i hagor i'w darllen)	Mwy na 250	50 – 250	Llai na 50
Hyd	Llai na 2000 o eiriau. Os oes llai na 250 o eiriau – ychwanegwch 1 pwynt arall.	2000 – 10,000 o eiriau	Mwy na 10,000 o eiriau
Pa mor dechnegol ydyw e.e. a fyddai darllennydd lleyg yn ei deall yn hawdd?	Byddai	I ryw raddau	Na
Cynulleidfa darged	Aelodau'r sector lle mae'r galw am ddeunydd yn yr iaith Gymraeg yn hysbys a sefydledig	Sectorau penodol e.e. awdurdodau tai neu leol y mae gan aelodau eraill o ôl-troed IMI ddiddordeb anuniongyrchol ynddynt	Arbenigwyr yn y sector Adwerthu Modurol lle mae'r galw am yr iaith Gymraeg yn finimal
Pwrpas h.y. a fydd angen dosbarthu'r eitem neu a fydd angen i gyrff eraill ei thrafod yn fewnol; a/neu a yw wedi'i llunio i geisio ymateb?	Bydd/Ydy	Efallai	Na
A fydd y ddogfen yn effeithio wedyn ar ddeunyddiau dilynol a/neu a fydd pobl yn dyfynnu ohoni'n eang?	Bydd	I ryw raddau	Na
Beth fydd y galw tebygol amdani/y diddordeb tebygol	Uchel (y diddordeb yn	Canolradd (grwpiau penodol	Isel (grwpiau arbenigol yn

ynddi – ar sail asesiad gwrthrychol a/neu brofiadau yn y gorffennol. Neu beth yw'r gyfran debygol o siaradwyr Cymraeg ymysg y rheiny fydd â diddordeb – ar sail cronfa ddata IMI?	gyffredinol iawn neu o ddiddordeb arbennig i siaradwyr Cymraeg)	yn unig)	unig)
Hirhoedledd – am ba mor hir fydd y ddogfen yn weithredol?	Mwy na 2 flynedd	6 mis – 2 flynedd	Dros dro (llai na 6 mis)
Statws/proffil	Uchel – eitem ar gyfer y cyfryngau neu ddogfen arweiniol	Canolradd – rhywfaint o amlygrwydd yn y sector	Isel – ychydig iawn o amlygrwydd yn y sector
Natur y ddogfen – a oes perthnasedd amlwg â'r iaith Gymraeg?	Oes	Anuniongyrchol	Nac oes

Dylai defnyddwyr y matrices yma farcio'r colofnau pwyntiau perthnasol ar gyfer bob cwestiwn/ystyriaeth ac yna adio'r pwyntiau i roi cyfanswm i bob colofn bwyntiau. Bydd cyfanswm cyffredinol pob un o'r 3 colofn bwyntiau'n rhoi cyfradd sy'n dangos faint o flaenoriaeth y dylid ei rhoi i'r ddogfen ar gyfer ei chyfieithu. Dylai'r sgorau gael eu cyfrif fel a ganlyn:

Sgôr	Cyfradd	Sut i weithredu
Mwy na 13	C1	Dylai'r dogfennau hyn fod yn ddwyieithog, ac fe fyddent yn ddwyieithog.
8-12	C2	Dylai'r dogfennau hyn fod yn ddwyieithog ond bydd y penderfyniad ynglŷn â'u darparu'n ddwyieithog ddibynnu ar y maint o adnoddau cyfieithu sydd ar gael ar y pryd
Llai na 7	C3	Yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd, ond gellid newid y penderfyniad yma yn y dyfodol

NODWCH: Tybir y bydd hyn yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r angen am ddogfennau dwyieithog yn y sector IMI yng Nghymru. Os oes unrhyw eithriadau, bydd staff yn eu hystyried yn ofalus er mwyn sicrhau y gweithredir yn gywir. Byddent yn ceisio cyngor gan swyddogion Bwrdd yr Iaith Gymraeg os oes angen.